# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 4ydd MEDI 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth y 4ydd o Fedi yn Neuadd Ffostrasol.

**Yn bresennol** Cyng Julie Davies, Cyng Eirian James, Cyng Owenna Davies, Cyng Teifi Evans, Cyng Emyr Jones, Cyng Mark Davies, Cyng Roger Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng Evan John Jones, Cyng Llŷr Evans, Cyng Maldwyn Lewis

**Clerc** Eleanor Colbourne

Cyn dechrau'r cyfarfod croesawyd Cyng Teifi Evans i'w cyfarfod cyntaf. Hefyd, atgoffwyd pawb am gyfrinachedd.

Hefyd, croesawyd ymwelydd i'r cyfarfod, sef Matthew Edwards, Castle Designs. Daeth Mr Edwards i'r cyfarfod i drafod ac ateb unrhyw gwestiynau a oedd yn codi ar gais gynllunio a fydd yn cael ei drafod.

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Evan John Jones, Cyng Llŷr Evans a'r Cyng Maldwyn Lewis . | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cynigiwyd gan y Cyng Roger Davies ac eiliwyd gan y Cyng Emyr Jones fod y cofnodion yn gywir. | | |
| **3. Datgan diddordeb** | Ni ddatgelodd neb ddiddordeb mewn unrhyw eitem ar yr agenda. | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | Nododd y clerc ei bod wedi derbyn derbynneb am daliad gogyfer a'r yswiriant ond nid tystysgrif. Dywedodd y Cyng Mark Davies ei fod wedi dod ar draws y dystysgrif yn y pecyn. Y clerc i'w gael yn barod erbyn y cyfarfod nesaf.<br><br>Angen dilyn y maer difbriliwr i fyny.<br><br>Ysbyty Aberteifi – eglurwyd y sefyllfa a phenderfynwyd trafod y mater yma eto. | Y Clerc<br><br>Cadeirydd | Hydref<br><br>Hydref |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | Yn absenoldeb y Cynghorydd Sir nid oedd dim yw nodi | | |
| **6. Gohebiaeth** | Dim gohebiaeth | | |
| **7. Ariannol** | Talwyd y sieciau canlynol<br>• HMRC - £175.20 (dau fis)<br>• Tâl y Clerc - £700.04 (dau fis)<br>• Llinos Jones, Cyfieithydd - £122.40 (3 mis)<br>Rhannwyd ffurflenni banc i'r rhai sydd ddim yn medru arwyddo sieciau. | Cyng Julie Davies, Cyng Mark Davies, | Hydref |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gan fod y banciau yn ein cymuned yn cau, soniwyd y posibilrwydd o dalu'r Clerc trwy'r system BACS. Angen trafod gyda Ashmole & Co sut mae mynd ynghyd â hyn.<br><br>Dangoswyd enghraifft o ffurflen gwariant fydd y clerc yn paratoi yn fisol | Cyng Teifi Evans<br>Cyng Mark Davies<br><br><br>YClerc | Hydref<br><br><br><br>Misol |
| **8. Cynllunio** | A180657 – Land adjacent to Villa Maria, Croeslan – cytunwyd a'r y cais am y rhesymau canlynol – 'mae'r cais yma wedi cael caniatad yr "outline planning" eisoes. Maent wedi talu sylw i sylwadau'r Cyngor Sir ac wedi addasu yn unol a'r gofynion. Yr ymgeisydd yn cydymffurfio â gofynion cynllunio y Cyngor Sir e.e. tai deulawr neu un llawr. | Y Clerc | Yn syth |
| **9. Polisi Iaith** | Angen cysylltu gyda Un Llais Cymru | Y Clerc | Hydref |
| **10. Safle Gwastraff** | Rhyddhawyd datganiad gan Gyngor Sir Ceredigion yn dweud fydd Safle Gwastraff Rhydonnen ar agor am dri diwrnod (Mercher, Sadwrn a Sul) o'r 1af o Ragfyr | | |
| **11. Asesiad Risg** | Penderfynwyd cael pwyllgor bach i drafod y mater yma | Cyng Owenna Davies, Cyng Mark Davies a'r Cyng Maldwyn Lewis | Hydref |
| **12. Cynllun Cyllid** | Penderfynwyd cael pwyllgor bach i drafod y mater yma | Cyng Owenna Davies, Cyng Mark Davies a'r Cyng Maldwyn Lewis | |
| **13. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Cynghorydd newydd; adborth o'r grŵp bach, rhestr anghenion ardaloedd | | |
| **14. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 2il o Hydref yn Neuadd Coedybryn am, 7.30 y.h. | | |

Llofnod (Cadeirydd) __________________________________

Llofnod (Is-Gadeirydd) __________________________________